

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Acorn Private Clinic, Penarth

Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2024

Dyddiad cyhoeddi: 14 Chwefror 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-297-1

© Hawlfraint y Goron 2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Acorn Private Clinic ar 14 Tachwedd 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod y rheolwr cofrestredig a'r staff yn y clinig yn gweithio'n galed i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r clinigwyr yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gallai pobl sydd â phroblemau symudedd gael mynediad hwylus i'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi addas ar gyfer cleifion â gofynion mynediad symudedd. At hynny, roedd staff y clinig wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos adborth i gleifion fel bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'
- Rhoi mwy o wybodaeth hybu iechyd am sut y gall cleifion cynnal eu hiechyd cyffredinol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Roedd yr amgylchedd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth yn dilyn eu triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y gwasanaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Roedd y prosesau atal a rheoli heintiau yn briodol ar gyfer y lleoliad. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ddigon o drefniadau dihalogi. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y clinig yn lân a bod mesurau rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Gellid gwella'r broses o reoli meddyginiaeth i gynnwys sicrhau bod meddyginiaethau yn ddiogel a'u gwirio'n rheolaidd i sicrhau bod eu dyddiad yn gyfredol. Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus, yn glir, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gosod y biniau offer miniog yn gywir, gan gynnwys eu llofnodi a'u dyddio
- Cynnal gwiriadau wedi'u dogfennau ar yr holl feddyginiaeth yn wythnosol
- Sicrhau bod yr ystafell neu'r cwpwrdd sy'n cynnwys meddyginiaethau dan glo bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y prosesau atal heintiau yn addas ac yn briodol
- Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y clinig yn diogelu oedolion a phlant.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

[[

Roedd trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig yn glir ac yn strwythuredig. Roedd y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i sicrhau diogelwch y cleifion yn ystod yr arolygiad. Cawsom wybod am gyfarfodydd rheolaidd i gasglu adborth y staff a gweithredu ynghylch unrhyw faterion a godwyd. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o'i berfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig, ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos tystysgrifau cofrestru mewn lle amlwg yn y clinig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth clir a strwythuredig
- Cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol
- Roedd arfarniadau wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Acorn Private Clinic ar gyfer yr arolygiad ym mis Tachwedd 2024. Cafwyd cyfanswm o 24 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rhai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd 24 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un o'r cleifion a atebodd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Cawsom y sylwadau canlynol am y lleoliad:

“Cyfleuster a staff gwych. Croesawgar iawn ac roedd yr amgylchedd yn lân.”

“Lleoliad a staff ardderchog. Mwy o driniaethau/cyngor ar berimenopos er enghraifft.”

“Clinig a staff hyfryd - rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth.”

“Clinig rhagorol a atebodd fy nghwestiynau.”

“Clinig a staff hyfryd a chyfeillgar sy'n barod i helpu.”

“Staff gofalgwr iawn a helpodd i ateb unrhyw gwestiynau a oedd gen i.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn y clinig am y gwasanaethau a ddarperir ac am y ffordd y gallai cleifion reoli eu hiechyd, fel gwybodaeth deietegol a gwybodaeth am bwysedd gwaed uchel. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn Saesneg.

Dylai'r clinig wneud y canlynol:

- Rhoi rhagor o wybodaeth hybu iechyd am y ffordd y gallai cleifion gynnal eu hiechyd cyffredinol
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.

Urddas a pharch

Nodwyd bod y clinig yn olau, yn agored ac yn lân. Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod ac ar lefel y stryd ac felly roedd yn addas i gleifion â phroblemau symudedd. Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais ac yn eu trin â charedigrwydd drwy gydol ein harolygiad.

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gellid trefnu apwyntiadau yn y clinig dros e-bost, dros y ffôn ac ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod wythnos o aros ar gyfer apwyntiadau. Ar gyfer cleifion nad oes ganddynt fynediad digidol, roedd gwybodaeth am unrhyw driniaeth ar gael yn y clinig neu byddai'r staff yn argraffu'r wybodaeth ar eu cyfer.

Nid oedd y ffurflen gofrestru yn cynnwys unrhyw opsiwn ar gyfer dewis iaith nac unrhyw anableddau. Byddai'r staff yn brysbennu'r cleifion dros y ffôn i bennu a fyddai'r clinig a'r driniaeth yn addas ar eu cyfer.

Roedd dau aelod o'r staff a oedd yn gweithio ar y safle yn siarad Cymraeg, ac roedd un ohonynt yn gweithio yn adran podiatreg y clinig. Roedd aelodau o'r staff yn gallu siarad ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg hefyd.

Dywedwyd wrthym fod ffurflenni cydsynio ar sail gwybodaeth a ffurflenni hanes meddygol yn cael eu hanfon at y cleifion ar ôl iddynt drefnu apwyntiad. Byddai'r cleifion yn cwblhau'r ffurflenni wrth gyrraedd y clinig os na fyddent wedi'u cwblhau ar-lein. Roedd y cleifion yn cwblhau'r ffurflenni hyn yn ystod pob ymweliad â'r clinig.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd. Dywedodd y cleifion fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad a'u bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno wrth wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y clinig yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion ac yn cyfathrebu â nhw mewn ffordd glir a hygyrch gan ddefnyddio dulliau a oedd yn briodol i'w hanghenion unigol.

Roedd staff y clinig hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ar ôl eu triniaeth a chanllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu mewn argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd fod cost y driniaeth wedi'i hegluro iddynt cyn iddynt ddechrau eu triniaeth. Dywedodd dau glaf a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn siarad Cymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn modd amserol, fel eu helpu i agor drysau. Gwelsom y staff hefyd yn dweud wrth y cleifion y byddai oedi o ran eu hapwyntiadau, gan fod y meddyg yn rhedeg yn hwyr. Gwelsom fod y staff yn ymroddedig wrth ryngweithio ac ymdrin â'r cleifion.

Roedd nifer o ffyrdd y gallai'r cleifion gael triniaeth, fel wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy ymgynghoriadau fideo. Byddai'r staff yn brysbennu'r cleifion i ddechrau er mwyn pennu'r ffordd orau i'w hasesu ac i ddarparu'r gwasanaeth gorau iddynt. Roedd tystiolaeth bod y staff yn hygyrch wrth ddiwallu anghenion penodol y cleifion neu geisiadau ganddynt.

Roedd mentrau ar waith a ddisgrifiwyd gan y staff er mwyn helpu i ofalu am gleifion ag anghenion ychwanegol, problemau synhwyradd neu anawsterau gwybyddol. Roedd y rhain yn cynnwys darparu adroddiadau sain i gleifion a neilltuo mwy o amser ar gyfer yr apwyntiad. Roedd polisi amhariadau gwybyddol a gweledol ac amhariad ar y clyw ar gael i'r staff gyfeirio ato. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith yn y clinig i roi system dolen sain ar waith i gleifion ag amhariad ar y clyw ac y gallai'r cleifion gael gafaél ar wybodaeth mewn Braille ar gais.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn eu bod yn cael digon o amser i roi gofal i'r cleifion yn ddiogel a bod nifer y staff yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n ddewisol ac roeddent yn ystyried nifer y staff a oedd yn gweithio yn y clinig.

Dywedodd 10 claf a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael triniaeth. Dywedasant eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn a'u bod yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Cawsom y sylwadau canlynol am ofal cleifion:

“Mae'r staff bob amser yn hyfryd, yn amyneddgar ac yn ofalgar. Rwy'n ofidus iawn am fy iechyd, ac maen nhw bob amser yn gofalu amdanaf.

Maen nhw bob amser yn garedig iawn ac mae ganddynt amser i fy ngweld. Mae gen i lawer o bethau da i'w ddweud. Lleoliad arbennig."

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith, a dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio. Cawsom sicrwydd y byddai hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai rhagenwau a ffefrir bob amser yn cael eu defnyddio.

Roedd mynediad gwastad i'r clinig ac roedd y drysau yn addas i gadeiriau olwyn. Roedd yr ystafelloedd trin yn fawr ac wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, gyda drysau llydan. Roedd toiled hygyrch ar gael ar lawr gwaelod y clinig, ger y fynedfa.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r clinig a'u bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchoddedig ai peidio.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r clinig a'u bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchoddedig ai peidio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Disgrifiwyd y dull a ddefnyddir i geisio barn defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn llywio gwelliannau a datblygiadau i'r gwasanaeth. Yn ogystal ag arddangos adolygiadau oddi ar Google ar wefan y clinig, roedd y practis hefyd yn defnyddio system o'r enw Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS), sef mesurydd ar gyfer asesu ffyddlondeb a boddhad cwsmeriaid. Gwelsom o'r dystiolaeth a ddarparwyd bod 164 allan o'r 175 o ymatebwyr wedi rhoi sgôr rhwng 6 a 10 allan o 10 i'r clinig, a elwir yn hyrwyddwyr, a bod y rhan fwyaf o'r sgoriau a welwyd yn 9 allan o 10 neu uwch. Dywedwyd wrthym y cyfeirir at y rhai hynny sy'n rhoi sgôr o bump neu lai fel unigolion goddefol a difriwyr a bod y clinig yn ffonio'r difriwyr er mwyn gofyn iddynt sut y gallai'r clinig wella. Er bod y clinig yn arddangos canlyniadau adolygiadau Google ar sgrin deledu yn y dderbynfa, nid oedd hysbysfwrdd 'dywedo chi, gwnaethom ni' i ddangos canlyniadau'r adborth a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth.

Dylai'r clinig arddangos canlyniadau'r adborth a gafwyd ar hysbysfwrdd 'dywedo chi, gwnaethom ni' er mwyn dangos y camau a gymerwyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud ag urddas y cleifion. Fodd bynnag, roedd y stordy yn anniben ac yn cynnwys cyfarpar amrywiol, gan gynnwys sugnwr llwch a glanhawr lloriau, yn ogystal â blychau cardfwrdd. At hynny, roedd cyfarpar yn cael ei storio ar ben un o'r cypyrddau yn y gegin, ac roedd hyn yn peri risg iechyd a diogelwch. Roedd angen tacluso'r ystafell hon gan ei bod yn peri risg bosibl o dân ac i iechyd a diogelwch.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau nad oes gormod o eitemau o gyfarpar a blychau yn cael eu cadw ar lawr y stordy a'r gegin.

Gwelsom dystiolaeth fod y peryglon amgylcheddol wedi cael eu hystyried, gan gynnwys peryglon mewn perthynas â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013, yn ogystal â pholisïau iechyd a diogelwch a diogelwch tân, a oedd ar gael i'r staff.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr adeilad yn hygyrch ac yn hawdd i bobl ag anableddau ei gyrraedd ac roedd cyfleusterau i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd y lleoedd parcio ar y stryd yn brin. Gwnaethom nodi bod y staff yn helpu'r cleifion a oedd yn ei chael hi'n anodd agor y drws ffrynt.

Roedd y practis mewn cyflwr da, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol, gan gynnwys y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau. Roedd yr amgylchedd yn addas at y diben. Er nad oedd unrhyw beryglon yn yr amgylchedd, fel coridorau wedi'u cau, eitemau diangen a pheryglon baglu, gwnaethom nodi bod peiriant llyfnu a ddefnyddir yn yr adran podiatreg yn y gegin, ond nad oedd yn cael ei ddefnyddio a dywedwyd wrthym mai dim ond pan fydd system tynnu yn cael ei gosod y bydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio.

Roedd drysau'n cael eu cau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd trin i ddynodi eu bod yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith i alw am help mewn argyfwng yn yr ystafell glinigol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system ar waith, fel botwm argyfwng, i alw am help yn yr ystafelloedd ymgynghori.

Nododd pob un ond un o'r cleifion bod yr adeilad yn hygyrch, gyda'r ymatebydd arall yn nodi bod y clinig yn rhannol hygyrch. Dywedodd un claf:

“Mae digon o le yn yr ystafell aros er mwyn i gleifion ddefnyddio eu cadeiriau olwyn neu i symud.”

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y clinig yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Roedd yr holl gyfarpar clinigol yn yr ystafelloedd triniaethau yn lân ac yn edrych yn newydd. Gwelsom fod gan y clinig brosesau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff ei ddefnyddio a'u bod yn newid y cyfarpar yn briodol rhwng cleifion. Roedd gorsafoedd golchi dwylo ar gael ym mhob ystafell ymgynghori. Cyfarpar untro oedd y rhan fwyaf o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd. Roedd prosesau dihalogi priodol ar waith ar gyfer y cyfarpar aml dro. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer dihalogi cyfarpar.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith yn y clinig er mwyn rhoi arweiniad clir i'r staff. Nodwyd lefel gydymffurfiaeth gyffredinol o 100 y cant o ran nifer y staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau.

Roedd cofnodion ac amserlenni glanhau ar gael yn y clinig. Roedd cyfarpar a rennir a dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu storio a'u diheintio'n briodol. Roedd y peiriant uwchsain yn lân ac yn cael ei storio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei ddihalogi'n briodol cyn ac ar ôl cynnal sgan uwchsain ar geudod mewnol. Roedd deunyddiau a weips dihalogi priodol ar gael.

Gwnaethom nodi fod polisi cyfredol ar reoli dŵr poeth ac oer ar waith, gydag asesiadau risg ar legionella. Roedd cofnodlyfr misol a thystysgrif legionella ar gael hefyd. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r asesiad risg ar gyfer legionella gan ei fod wedi'i ddyddio ers mis Hydref 2023.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr asesiad risg ar gyfer legionella ei adolygu a'i ddiweddarau.

Gwnaethom nodi bod rhaglen archwilio barhaus ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau atal a rheoli heintiau yn ogystal â threfniadau ar gyfer cyflwyno'r canlyniadau. Roedd yr archwiliadau yn cynnwys archwiliad atal a rheoli heintiau, hylendid dwylo a heintiau yn safle'r llawdriniaeth, ac roedd cynlluniau gweithredu lle roedd gwyriadau o'r canlyniadau disgwyliadwy.

Roedd cofnodion imiwneiddio'r staff rhag hepatitis B ar gael yn y clinig hefyd.

Roedd yr amgylchedd yn sicrhau bod posibl rhoi prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith, gan gynnwys system goleuadau fflysio ar y to a oedd yn lleihau'r angen i gasglu llwch a llawr addas. Roedd posteri i'w gweld ar dechnegau golchi

dwylo ger y sinciau gyda gwyntyllau echdynnu ar gael ym mhob rhan o'r clinig a throsiant aer rheolaidd.

Roedd dyfeisiau miniog mwy diogel a biniau offer miniog yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y biniau offer miniog wedi cael eu llofnodi na'u dyddio i ddangos pwy oedd wedi gosod y biniau a'r dyddiad y gwnaethpwyd hynny. At hynny, nid oedd y bin offer miniog a oedd yn yr ystafell mân lawdriniaethau wedi cael ei osod yn gywir a oedd yn peri risg os byddai'r offer miniog yn cwmpo allan ohono. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer casglu gwastraff ac offer miniog.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y biniau offer miniog eu gosod yn gywir, eu llofnodi a'u dyddio.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn'. Dywedodd pob un o'r cleifion a fynegodd eu barn fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y staff yn sicrhau bod yr oergelloedd yn addas at y diben o hyd drwy wirio a chofnodi'r tymereddau'n ddyddiol. Roeddent yn defnyddio system cod ymateb cyflym (QR) a oedd yn sicrhau y gellid gwirio'r tymereddau'n ddiraffferth. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar waith i roi gwybod i'r staff am y camau i'w cymryd os byddai'r tymheredd yn uwch neu'n is na'r goddefiannau y cytunwyd arnynt.

Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod polisi ar waith sy'n nodi'r camau i'w cymryd mewn perthynas â'r meddyginiaethau pe byddai tymheredd yr oergell yn uwch neu'n is na'r goddefiannau.

Roedd unigolion a enwir yn gyfrifol am wirio'r feddyginiaeth ac roedd y staff yn ymwybodol o'r unigolyn hwn.

Roedd y clinig yn rhoi gwybod am adweithiau andwyol i gyffuriau yr amheuir yn uniongyrchol i Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd drwy'r cynllun 'Cerdyn Melyn'.

Roedd y cyfarpar brys yn yr adeilad yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Roedd y cyfarpar hwn yn cynnwys diffibriliwr gyda phadiau cyfredol, a oedd yn cael ei wirio'n ddyddiol, a ffiolau unigol o adrenalin a nodwyddau rhoi adrenalin a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd. Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r tair ffiol na'r nodwyddau rhoi adrenalin yn gyfredol. Byddai'r dyddiadau ar yr eitemau hyn yn cael eu gwirio wrth gynnal gwiriadau ar y diffibriliwr yn y

dyfodol. Yn ystod yr arolygiad, gosododd y clinig adrenalin a nodwyddau newydd yn y cwpwrdd ac ymdrinnir â'r rhain yn Atodiad A.

Trafodwyd y trefniadau a oedd ar waith i archebu, cael, storio, rheoli, cyflenwi, rhagnodi, rhoi a gwaredu nifer cyfyngedig o feddyginiaethau. Roedd y clinig yn cyflogi fferylllydd i'w gynghori am hyn. Roedd y stociau cyfyngedig o feddyginiaethau a oedd ar gael yn cael eu storio mewn cwpwrdd metel mewn stordy. Nid oedd posibl cloi y cwpwrdd ac roedd drws yr ystafell ar agor yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y gwiriadau misol rheolaidd wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai'r holl feddyginiaethau'n cael eu gwirio cyn iddynt gael eu rhoi i'r cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar yr holl feddyginiaeth yn wythnosol a'u dogfennu**
- **Y bydd yr ystafell neu'r cwpwrdd sy'n cynnwys y meddyginiaethau dan glo bob amser.**

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar gael a oedd yn esbonio'r prosesau i'r staff.

Gwelsom fod y broses rhoi meddyginiaeth yn cael ei chofnodi'n gyson ac yn brydlon.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd yn ymwybodol o unrhyw hyfforddiant a gwblhawyd ar reoli silindrau ocsigen. Roedd angen i'r staff a oedd yn gallu rhagnodi a rhoi ocsigen fod yn gymwys mewn nwyon meddygol gan eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant meddygol.

Roedd polisi ocsigen ar gael i'r staff ac roedd trefniadau ar waith i arolygu'r silindrau ocsigen. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd proses ar waith ar gyfer rhoi gwybod am faterion yn ymwneud â'r silindrau ocsigen neu'r broses o roi ocsigen, gan gynnwys diffyg hyfforddiant y staff. Ni fu'n rhaid i'r staff roi ocsigen i unrhyw un yn y clinig. Roedd unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb wythnosol. Gwnaethom hefyd nodi bod y silindr ocsigen yn cael ei storio mewn ardal gaeedig ac nad oedd wedi'i osod yn sounnd i'r adeilad. Nid oedd hyn yn cydymffurfio â pholisi'r clinig. Roedd contract ar waith i gynnal a chadw'r silindr ocsigen hefyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod y clinig yn dogfennu proses ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â'r silindrau ocsigen**
- **Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar silindrau ocsigen**
- **Bod y silindr ocsigen yn cael ei osod yn sOWNd i'r wal yn y clinig.**

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y clinig. Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith yr oedd dyddiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf wedi'i nodi arno a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt y tîm diogelu lleol a siart lif diogelu. Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu.

Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom nodi nad oedd un aelod o staff y dderbynfa y diwrnod hwnnw wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Cytunodd y rheolwr i sicrhau y byddai pob aelod o staff y clinig yn cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn sicrhau eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y gwasanaeth yn cynnwys y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, roedd y gel uwchsain yn cael ei roi mewn poteli plastig bach a oedd yn cael eu hailddefnyddio o gynhwysydd mawr. Yn unol â hysbysiad diogelwch cleifion (2023), ni ddylid rhoi'r gel uwchsain mewn cynhwysyddion eraill.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod poteli gel uwchsain yn cael eu defnyddio unwaith yn unig a'u bod yn cael eu gwaredu pan yn wag. Ni ddylid rhoi'r gel mewn poteli sydd wedi cael eu defnyddio o gynhwysydd gel uwchsain mwy.

Roedd cyfarpar uwchsain priodol ar gael gyda dewis o chwiliddyddion. Roedd gwyntyllau trosiant aer ar gael ym mhob rhan o'r clinig ac roedd yr holl gyfarpar a welsom yn cael ei ddefnyddio at ddibenion priodol. Roedd y cyfarwyddwr clinigol yn cynnal gwiriadau misol ar y cyfarpar uwchsain a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau hyn.

Nodwyd bod tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu ym mis Mawrth 2024 yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Gan fod y peiriant ar les, byddai'r clinig yn rhoi gwybod am ddiffygion i'r cwmni rhentu ar les a fyddai'n ei atgyweirio.

Roedd aelodau allweddol o staff y clinig wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r dyfeisiau meddygol a byddai'r staff yn cwblhau hyfforddiant priodol wrth ddechrau'r broses awtoclaf.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y dangosyddion a'r archwiliadau ansawdd a ddefnyddir i fonitro gofal cleifion yn cynnwys archwiliadau atal a rheoli heintiau, hylendid dwylo a safleoedd llawfeddygol. Gwnaethom nodi hefyd fod archwiliadau'n cael eu cynnal ar nodiadau'r cleifion ac ar y lluniau uwchsain.

Roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r canllawiau clinigol mewn perthynas â'i faes ymarfer a chadarnhawyd bod y staff wedi darllen polisiau perthnasol y clinig a'u bod yn cael eu profi arnynt fel rhan o'r broses. Llwyddodd y staff i gael gafael ar y polisiau pan ofynnwyd iddynt. Gwelsom dystiolaeth dda o archwiliadau, ac roedd y cynlluniau gweithredu yn amlwg lle nad oedd y safonau yn cydymffurfio â'r hyn a oedd yn ddisgwyliadwy. Roedd polisiau cynhwysfawr ar gael gan y clinig ar-lein a oedd yn cynnwys tystiolaeth i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Esboniodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw y gweithgareddau gwella ansawdd a oedd wedi cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys prynu sganiwr esgyrn newydd. Roedd y lleoliad yn ystyried prynu peiriant delweddu atseiniol magnetig (MRI) hefyd. Roedd y clinig hefyd yn ystyried ehangu i adeiladau ychwanegol mewn rhan arall o'r sir.

Dywedwyd wrthym fod y meysydd i'w gwella yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd tîm wythnosol.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith a dangosodd y staff ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn electronig, ac roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y cofnodion hyn yn ddiogel. Dangosodd y cofnodion cleifion a welsom fod prosesau cadw cofnodion da iawn, gan gynnwys y broses o enwi'r hebryngwr a'r asiant glanhau a ddefnyddiwyd a rhif a math yr asiant. Roedd y cofnodion yn drefnus, yn glir, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, nid oedd yr adran alergeddau wedi'i chwblhau hyd yn oed lle nad oedd unrhyw alergeddau. At hynny, dylai'r ffurflen gydsynio fod yn fwy manwl ar gyfer pob maes ac nid oedd dewis iaith y cleifion wedi cael ei ddogfennu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod yr adran alergeddau yn cael ei chwblhau hyd yn oed os nad oes gan y claf unrhyw alergeddau
- Bod ffurflenni cydsynio yn cael eu cwblhau ar gyfer pob triniaeth unigol a phenodol
- Bod dewis iaith y cleifion yn cael ei ddogfennu.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion yn yr holiadur bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Ymgysylltodd y tîm rheoli a'r staff â'r broses arolygu, roeddent yn awyddus i ddysgu a gwnaethant ymateb i'r argymhellion a wnaed.

Roedd copi o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gael ar gyfer y cleifion yn nerbynfa'r clinig. Roedd y rhain yn cynnwys y wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Dim ond y gwasanaethau a oedd wedi'u rhestru ar y datganiad o ddiben oedd yn cael eu darparu yn y clinig. Er bod copïau o dystysgrifau cofrestru AGIC yn y clinig, nid oeddent yn cael eu harddangos mewn lle amlwg.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y tystysgrifau cofrestru eu harddangos mewn lle amlwg yn y clinig.

Nodwyd bod strwythur rheoli addas â llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith. Roedd y rheolwr cofrestredig (sef yr unigolyn cyfrifol hefyd) yn gweithio yn y clinig ac ar gael i gefnogi'r staff ac i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Gwnaethom nodi bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn casglu adborth y staff a bod y clinig yn gweithredu ar unrhyw faterion a godir. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Roedd polisiau clinigol a chyffredinol cynhwysfawr ar waith y gall y staff gael gafael arnynt a gwnaethom nodi y byddai'r staff yn cael eu profi ar y polisiau hyn drwy ddefnyddio'r system a ddefnyddir ar ôl iddynt eu darllen.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion roi adborth a gwneud cwyn. Roedd hefyd polisi cwyno a chanmoliaeth cyfredol a oedd yn rhestru manylion y rheolwr cwynion a manylion AGIC. Gwelsom y gofrestr cwynion a nodwyd gennym fod y clinig wedi cael dwy gŵyn yn ystod 2024. Aethpwyd i'r afael â'r cwynion hyn o fewn 10 diwrnod i'w derbyn. Byddai gwybodaeth sy'n deillio o gwynion yn cael ei rhannu â'r staff, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ystod y cyfarfodydd tîm wythnosol. Fodd bynnag, nid oedd gan y clinig bolisi pryderon.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi pryderon yn cael ei lunio ar gyfer y clinig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd proses recriwtio staff ar waith a oedd yn cael ei dogfennu, ac yn ogystal â chyflogi staff, roedd aelodau sesiynol o staff yn cael eu cyflogi a oedd yn meddu ar freintiau ymarfer i weithio yn y clinig.

Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cwblhau ar y staff, gan gynnwys gwiriadau geirdaon, cofrestriadau, cofnodion ail-ddilysu a gofynion y gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS). Roedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar system rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid y cwmwl, yr oedd yn bosibl cael gafael arni drwy ddefnyddio system awdurdodi dau ffactor.

Roedd rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael i'r staff yn ogystal ag unrhyw gymorth iechyd meddwl pe bai ei angen arnynt.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y lefelau staffio yn ddibynnol ar y galw ac yn briodol ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu gweld. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen ar gleifion.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am bryderon a'u bod o'r farn y byddai'r clinig yn ymdrin â'u pryderon ac yn ymateb iddynt.

Er nad oedd matrices hyfforddiant gorfodol, gwelsom y tystysgrifau hyfforddiant ar gyfer pump aelod o staff ar y system a ddefnyddir. Dengys hyn bod y staff yn cydymffurfio'n dda â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol, diogelwch tân, codi a chario, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu, atal a rheoli heintiau a hyfforddiant ar unrhyw ddyfeisiau a chyfarpar meddygol a ddefnyddir.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Nodwyd gennym fod ffordd arloesol o hyfforddi staff ar waith a oedd yn cynnwys fideos pwrpasol a oedd wedi cael eu ffilmio gan y Cyfarwyddwr Clinigol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Nid oedd yr un o'r tair ffiol o adrenalin na'r nodwyddau rhoi adrenalin a oedd yn cael eu cadw yn y clinig yn gyfredol.</p>	<p>Mae'r dyddiad defnyddio ar feddyginiaeth yn dynodi'r dyddiad olaf y gall y gwneuthurwr warantu y bydd y feddyginiaeth yr un mor effeithiol, ac yr un mor ddiogel, i'w defnyddio â'r adeg y cafodd ei chynhyrchu. Mae'n bosibl na fydd meddyginiaeth y mae'r dyddiad defnyddio ar ei chyfer wedi mynd heibio yr un mor effeithiol a diogel â meddyginiaeth gyfredol pe byddai angen ei defnyddio.</p>	<p>Dywedwyd wrth y Rheolwr Cofrestredig am y materion a sicrhodd ar unwaith na fyddai'r eitemau yn cael eu defnyddio, gan archebu meddyginiaeth newydd.</p>	<p>Cyrhaeddodd ffiolau a nodwyddau rhoi adrenalin newydd y clinig cyn diwedd yr arolygiad.</p> <p>Byddai dyddiadau defnyddio'r eitemau hyn yn cael eu gwirio wrth gynnal gwiriadau ar y diffibriliwr yn y dyfodol.</p>

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Acorn Private Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Acorn Private Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	<p>Roedd deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn y clinig am y gwasanaethau a ddarperir ac am y ffordd y gallai cleifion reoli eu hiechyd, fel gwybodaeth deietegol a gwybodaeth am bwysedd gwaed uchel.</p>	<p>Dylai'r clinig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Rhoi rhagor o wybodaeth hybu iechyd am y ffordd y gallai cleifion gynnal eu hiechyd cyffredinol.	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd</p>	<p>Mae nifer o bosteri a thaflenni wedi cael eu creu a'u hargraffu ar gyfer y cleifion ar y pynciau canlynol:</p> <p>rheoli pwysau, dementia, diabetes, iechyd y galon.</p> <p>Mae'r poster hyn wedi cael eu creu yn Gymraeg hefyd.</p>	<p>Jessica Jones</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau.</p> <p>(gellir darparu tystiolaeth ar gais)</p>

	<p>Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn Saesneg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd ac yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn. Dylai cleifion gael cynnig y cyfle i siarad yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd. 	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Cyfathrebu'n Effeithiol</p> <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (1) (g)</p>		
2.	<p>Er bod y clinig yn arddangos canlyniadau adolygiadau Google ar sgrin deledu yn y dderbynfa, nid oedd hysbysfwrdd 'dywedochni, gwnaethom ni' i ddangos canlyniadau'r adborth a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth.</p>	<p>Dylai'r clinig arddangos canlyniadau'r adborth a gafwyd ar hysbysfwrdd 'dywedochni, gwnaethom ni' er mwyn dangos y camau a gymerwyd.</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth</p>	<p>Ymhlith yr adborth blaenorol yr oedd angen mynd i'r afael ag ef, ymdriniwyd â'r mater hwn ac mae'r canlyniadau bellach yn cael eu harddangos. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei gymryd yn rheolaidd ar gyfer yr holl adborth a gawn yn y dyfodol er hwylustod i'r cleifion.</p>	<p>Jessica Jones</p> <p>Rydym wedi cwblhau'r cam gweithredu hwn ar gyfer yr adborth blaenorol, ac mae cynllun wedi cael ei roi ar waith ar</p>

						gyfer y dyfodol.
3.	Fodd bynnag, roedd y stordy yn anniben ac yn cynnwys cyfarpar amrywiol, gan gynnwys sugnwr llwch a glanhawr lloriau, yn ogystal â blychau cardfwrdd. At hynny, roedd cyfarpar yn cael ei storio ar ben un o'r cypyrddau yn y gegin, ac roedd hyn yn peri risg iechyd a diogelwch. Roedd angen tacluso'r ystafell hon gan ei bod yn peri risg bosibl o dân ac i iechyd a diogelwch.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau nad oes gormod o eitemau o gyfarpar a blychau yn cael eu cadw ar lawr y stordy a'r gegin.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 26 (2)	Rydym wedi symud yr eitemau o'r stordy a'r gegin ac wedi glanhau'r ystafelloedd yn fanwl.	Jessica Jones	Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu tystiolaeth ar gais)

4.	Nid oedd system ar waith i alw am help mewn argyfwng yn yr ystafell glinigol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system ar waith, fel botwm argyfwng, i alw am help yn yr ystafelloedd ymgynghori.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (1) (k)	Mae system alw mewn argyfwng wedi cael ei gosod yn yr ystafelloedd clinigol	Pretesh Kerai	Cyn 30 Chwefror 2025
5.	Roedd angen adolygu'r asesiad risg ar gyfer legionella gan ei fod wedi'i ddyddio ers mis Hydref 2023.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr asesiad risg ar gyfer legionella ei adolygu a'i ddiweddarau.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (1) (e) Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Rheoli Risg ac lechyd a Diogelwch	Rydym wedi cysylltu â TS Heating and Bathrooms er mwyn i'r cwmni adolygu'r asesiad risg Legionella. Rydym wedi trefnu iddo gynnal yr adolygiad ddydd Mawrth 28 Ionawr 2025	Pretesh Kerai	28 Ionawr 2025
6.	Nid oedd y biniau offer miniog wedi cael eu llofnodi na'u dyddio i ddangos pwy oedd wedi gosod y biniau a'r	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y biniau offer miniog eu gosod yn gywir, eu llofnodi a'u dyddio.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (1) (n)	Mae'r holl finiau offer miniog wedi cael eu gosod yn briodol, eu llofnodi a'u dyddio.	Jessica Jones	Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu

	dyddiad y gwnaethpwyd hynny. At hynny, nid oedd y bin offer miniog a oedd yn yr ystafell mân lawdriniaethau wedi cael ei osod yn gywir a oedd yn peri risg os byddai'r offer miniog yn cwmpo allan ohono.		Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch			tystiolaeth ar gais)
7.	Nid oedd polisi ar waith i roi gwybod i'r staff am y camau i'w cymryd os byddai'r tymheredd yn uwch neu'n is na'r goddefiannau y cytunwyd arnynt.	Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod polisi ar waith sy'n nodi'r camau i'w cymryd mewn perthynas â'r meddyginiaethau pe byddai tymheredd yr oergell yn uwch neu'n is na'r goddefiannau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9	Mae polisi newydd wedi cael ei greu a'i rannu â phob aelod o'r staff. At hynny, cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant fer i sicrhau bod pawb yn deall y broses.	Syed Ehtasham Junaid	Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu dystiolaeth ar gais)
8.				Er mwyn mynd i'r afael â'r pryder, rydym wedi	Jessica Jones	

<p>Roedd y nifer cyfyngedig o feddyginiaethau a oedd yn cael eu cadw yn y clinig yn cael eu storio mewn cwpwrdd metel nad oedd yn bosibl ei gloi ac roedd drws yr ystafell ar agor yn ystod yr arolygiad.</p> <p>Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y gwiriadau misol rheolaidd wedi cael eu cynnal.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y bydd yr ystafell neu'r cwpwrdd sy'n cynnwys y meddyginiaethau dan glo bob amser • Bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar yr holl feddyginiaeth yn wythnosol a'u dogfennu. 	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 15 (5)</p>	<p>rhoi'r mesurau canlynol ar waith:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar bwysigrwydd storio meddyginiaethau'n ddiogel a chynnal diogelwch ystafell priodol 2. Mae arwydd wedi cael ei osod ar y drws er mwyn atgoffa'r staff i'w gloi ar ôl defnyddio'r ystafell 3. Bydd y drws bellach yn aros ar glo pan nad yw'r ystafell yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau'n ddiogel 		<p>Eisoes wedi'i gwblhau.</p> <p>(gellir darparu tystiolaeth ar gais)</p> <p>Caiff y cofnodlyfra u eu cynnal o nawr ymlaen.</p>
---	---	---	--	--	---

				4. Caiff gwiriadau misol rheolaidd eu cynnal ar nifer, dyddiad defnyddio a chyflwr y meddyginiaethau a chânt eu dogfennu mewn cofnodlyfrau.		
9.	<p>Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd proses ar waith ar gyfer rhoi gwybod am faterion yn ymwneud â'r silindrau ocsigen na'r broses o roi ocsigen, gan gynnwys diffyg hyfforddiant y staff.</p> <p>Gwnaethom hefyd nodi bod y silindr ocsigen yn cael ei storio mewn ardal</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y clinig yn dogfennu proses ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â'r silindrau ocsigen Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar silindrau ocsigen 	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9</p> <p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 20 (2) (a)</p>	<p>Rydym wedi cymryd y camau canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r mater:</p> <ol style="list-style-type: none"> Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar drin silindrau ocsigen a'r broses o roi ocsigen Mae cofnodlyfr wythnosol ar gyfer y silindr ocsigen bellach ar waith i sicrhau y 	Pretesh Kerai	<p>Eisoes wedi'i gwblhau.</p> <p>(gellir darparu tystiolaeth ar gais)</p> <p>Caiff y cofnodlyfra u eu cynnal o nawr ymlaen,</p>

	gaeedig ac nad oedd wedi'i osod yn sownd i'r adeilad. Nid oedd hyn yn cydymffurfio â pholisi'r clinig.	<ul style="list-style-type: none"> Bod y silindr ocsigen yn cael ei osod yn sownd i'r wal yn y clinig. 		<p>caiff ei fonitro'n barhaus</p> <p>3. Dylid rhoi gwybod am unrhyw faterion a nodir mewn perthynas â'r silindrau ocsigen neu'r broses o roi ocsigen yn uniongyrchol i Reolwr y Practis i'w datrys ar unwaith</p> <p>4. Rydym wedi archebu bracedi a dalwyr er mwyn gosod y silindr ocsigen yn sownd i'r wal. Caiff y silindr ocsigen ei osod yn sownd i'r wal unwaith y byddant yn cyrraedd.</p>		Caiff y Silindr Ocsigen ei osod yn sownd i'r wal cyn 30 Chwefror 2025
10.	Yn unol â hysbysiad diogelwch cleifion	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod	Hysbysiad diogelwch cleifion Llywodraeth	Rydym wedi prynu stoc o gel untro	Syed Ehtasham Junaid	

	(065 2023), ni ddylid rhoi'r gel uwchsain mewn cynwysyddion eraill.	poteli gel uwchsain yn cael eu defnyddio unwaith yn unig a'u bod yn cael eu gwaredu pan yn wag. Ni ddylid rhoi'r gel mewn poteli sydd wedi cael eu defnyddio o gynhwysydd gel uwchsain mwy.	Cymru (PSN 065 2023) - Defnyddio gel uwchsain yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg o haint.			Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu tystiolaeth ar gais)
11.	Nid oedd yr adran alergeddau yng nghofnodion y cleifion wedi'i chwblhau hyd yn oed lle nad oedd unrhyw alergeddau. At hynny, dylai'r ffurflen gydsynio fod yn fwy manwl ar gyfer pob maes.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Bod yr adran alergeddau yn cael ei chwblhau hyd yn oed os nad oes gan y claf unrhyw alergeddau Bod ffurflenni cydsynio yn cael eu cwblhau ar gyfer pob triniaeth unigol a phenodol 	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 23	Mewn ymateb i'r mater hwn, rydym wedi cymryd y camau canlynol: 1. Cynhaliwyd cyfarfod â phob meddyg i sicrhau y caiff yr adran alergeddau yng nghofnodion y cleifion ei chwblhau'n gyson, hyd yn oed os nad oes gan y cleifion unrhyw alergeddau	Syed Ehtasham Junaid	Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu tystiolaeth ar gais)

	Hefyd, nid oedd dewis iaith yn cael ei dogfennu.	<ul style="list-style-type: none"> Bod dewis iaith y cleifion yn cael ei ddogfennu. 		<p>2. Mae ein Rheolwr Technoleg wedi diweddarau'r ffurflenni cydsynio er mwyn sicrhau eu bod yn fwy penodol ar gyfer pob triniaeth ac ymgynghoriad. Bydd hyn yn sicrhau eglurder a manyldeb</p> <p>3. Mae'r ffurflen cofrestru cyn apwyntiad a'r ffurflen hanes meddygol wedi cael eu haddasu i dynnu sylw at y meysydd alergeddau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei dogfennu'n gywir ymlaen llaw.</p>		
12.	Er bod copïau o dystysgrifau cofrestru	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y	Deddf Safonau Gofal 2000	Mae'r holl dystysgrifau perthnasol wedi cael	Jessica Jones	

	AGIC yn y clinig, nid oeddent yn cael eu harddangos mewn lle amlwg.	tystysgrifau cofrestru eu harddangos mewn lle amlwg yn y clinig.	Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002	eu harddangos mewn lle amlwg.		Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu tystiolaeth ar gais)
13.	Nid oedd gan y clinig bolisi pryderon ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi pryderon yn cael ei lunio ar gyfer y clinig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9	Mae polisi Pryderon newydd wedi cael ei lunio a'i rannu â phob aelod o'r staff.	Syed Ehtasham Junaid	Eisoes wedi'i gwblhau. (gellir darparu tystiolaeth ar gais)

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **Pretesh Kerai**

Teitl swydd: **Cyfarwyddwr ac Uwch-bodiatrydd**

Dyddiad: **27 Ionawr 2025**